

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/  
Prif Weithredwr GIG Cymru  
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/  
NHS Wales Chief Executive  
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Ein Cyf/Our Ref:AG/HA/JM

24 Tachwedd 2017

Annwyl Mr Ramsay,

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog**

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 31 Hydref yn ceisio eglurhad am yr hyblygrwydd ynghylch lefelau cyflogau sydd ar gael i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru wrth recriwtio gweithredwyr ar lefel Bwrdd (ESPs).

Gallaf gadarnhau bod eich dealltwriaeth bod rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch y cyflog a gynigir adeg penodiad yn gywir, ond mae'r Fframwaith Cyflogau'n bodoli er mwyn cadw lefel o gysondeb ledled Cymru ac i sicrhau bod cyflog priodol yn cael ei gynig trwy unrhyw broses recriwtio.

Nodwyd sgoriau JESP a graddfeydd cyflog cysylltiedig ar gyfer pob un o'r swyddi ESP ar Fyrddau ledled Cymru yn y llythyr oddi wrth Paul Williams yn ei lythyr at Brif Weithredwyr ym Mai 2009. Cafodd y trefniadau eu hailgadarnhau mewn llythyr pellach oddi wrth Paul Williams yn Chwefror 2011.

Mae'r canllawiau'n glir y dylai'r penodiadau gael eu gwneud ar bwynt isaf y graddfeydd cyflog ond gallai Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Thelerau'r Bwrdd neu'r Ymddiriedolaeth Iechyd gytuno i gynig cyflog uwch lle'r ychwanegwyd cyfrifoldebau ychwanegol at y rôl. Os bydd Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd yn dymuno cynig lefel cyflog sydd yn uwch nag




BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 801182/1144  
[Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk](mailto:Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk)  
Gwefan • website: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

uchafswm y band cyflog a nodir yn y canllawiau yna mae'n ofynnol iddynt geisio cytundeb gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achosion hyn byddem yn disgwyl gweld achos busnes cadarn yn cyfiawnhau'r gwariant ac yn dangos bod penodi unigolyn ar raddfa gyflog uwch yn werth da am arian cyhoeddus ac y byddai'r cyfle i recriwtio o fewn yr ystod gyflog arferol yn cael ei archwilio.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall**